
PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG DYDD LLUN, 11 RHAGFYR 2017

Yn bresennol: Y Cynghorwyr, Steve Collings, Eryl Jones-Williams, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Rheinallt Puw, Peter Read, Dewi Roberts, Elfed W. Williams a Gareth Williams

Hefyd yn Bresennol: Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Annwen Daniels, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Sion Jones a Jason W Parry

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 11eg o Fedi 2017 fel rhai cywir.

5. ASESIAID CYDRADDOLDEB Y POLISI HAPCHWARAE

Derbyniwyd diweddariad ar lafar ar Aseiad Cydraddoldeb y Polisi Hapchwarae. Amlygwyd bod yr aseiad wedi ei gyflwyno i'r swyddog cydraddoldeb a bod angen gweithredu ar yr ychydig ddiwygiadau a gynigiwyd. Unwaith bydd yr addasiadau wedi eu cwblhau bydd y polisi yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn.

Awgrymwyd y dylai'r aseiad gael ei gylchredeg i'r Aelodau unwaith y bydd wedi ei gwblhau.

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.50 y.b. a daeth i ben am 11.00 y.b.